



Bydd y
Cymry Brenhinol
yn gorymdeithio
yn gwrdd Bargod
ar yr 28ain
o Fedi

Cefnogi ein Harwyr!

Mae'r cyfri wedi dechrau ar gyfer y Cymry Brenhinol yn dychwelyd i fwrdeistref sirol Caerffili ac mae trigolion yn cael eu hannog i ddod a dangos eu cefnogaeth i'r gatrawd pan fyddant yn gorymdeithio drwy Fargod yn hwyrach yn y mis.

Bydd y Cymry Brenhinol yn gorymdeithio trwy ganol tref Bargod ar Ddydd Sadwrn yr 28ain o Fedi am 12 canol dydd i gofio trydydd pen- blwydd y gatrawd yn derbyn Rhyddid bwrdeistref sirol Caerffili.

Bydd y digwyddiad hefyd yn darparu achlysur priodol i arddangos rhai o weithfeydd adfywio Bargod i ymwelwyr i'r dref.

Bydd y gatrawd yn gorymdeithio



o faes parcio Santes Gwladys, ar hyd Y Stryd Fawr a Heol Hanbury i sgwâr Bargod yng nghanol y dref, lle bydd seremoni swyddogol yn digwydd. Bydd y gatrawd wedyn yn gwneud cais am ganiatâd i barhau i orymdeithio trwy'r dref (ar hyd Stryd Gilfach), cyn aros wrth gyffordd tafarn Capel.

Dywedodd Cyngorydd Harry Andrews, Arweinydd y Cyngor, "Mae'n ffraind gennym groesawu'r Cymry Brenhinol yn ôl i'n bwrdeistref sirol - does dim amheuaeth gen i bydd trigolion yn dod o ar draws y fwrdeistref sirol yn eu miloedd i ddangos eu cefnogaeth a'u gwerthfawrogiad i'r gatrawd."

Dywedodd Uwch-gaptin Derek Adams, Ysgrifennydd Catrodol Cynorthwyol y Cymry Brenhinol, "Mae bob amser yn anrhydedd arbennig a braint i filwyr gael eu croesawu i'r pentrefi, trefi a'r dinasoedd ble cawsant eu geni. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle perffaith i ni i gysylltu gyda chymunedau sydd wedi dangos cymaint o gefnogaeth i ni."

Aeth yn ei flaen, "Pan fydd milwyr yn gorymdeithio trwy'r strydoedd ac yn gweld y gefnogaeth oddi wrth y cyhoedd, maent yn teimlo'n wylaidd ac yn werthfawrogi iawn. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y digwyddiad hwn."

**Am wybodaeth bellach,
ffoniwch 01443 863218**

Cefnogwch y Beicwyr!

Bydd dros 110 o beicwyr gorau'r byd yn gwibio drwy strydoedd bwrdeistref sirol Caerffili ar Ddydd Iau 19eg Medi pan ddaw Taith Prydain i ymweld â'r ardal unwaith eto.

Mae Taith Prydain, a gynhelir dros gyfnod o wyth diwrnod ac sy'n cynnwys wyth gwahanol gam, yn dathlu ei dengmlwyddiant eleni. Bydd y beicwyr yn dechrau yn Peebles yng Ngororau'r Alban ar ddydd Sul 15fed Medi ac yn gorffen yng nghanol Llundain ar ddydd Sul 22ain Medi.

Fel rhan o gam pump y ras, bydd y beicwyr yn rasio ar hyd Cymru, o Fachynlleth i Gaerffili ar ddydd Iau 19eg Medi.

Bydd eu taith drwy'r fwrdeistref sirol yn dechrau ym Mhentwyn am tua 2.30pm, cyn teithio drwy Deri, Bargod, Glan-y-nant a Thir-y-berth. Wedyn bydd y beicwyr yn rasio heibio i Ysbyty Ystrad Fawr a thrwy Lanbradach, cyn anelu am Gaerffili. Wedyn byddant yn wynebu'r her o ddringo Mynydd Caerffili ddwywaith cyn disgyn i'r dref ar gyfer rhan olaf y cam yng Nghastell Caerffili am tua 3.30pm.

Dywedodd y Cynghorydd Ken James, "Byddem wrth ein boddau yn gweld miloedd o bobl ar hyd y llwybr unwaith eto eleni yn cefnogi'r cystadleuwyr. Bydd y ras eleni yn cynnwys 10 milltir ychwanegol o fewn ein bwrdeistref sirol ac felly mae cyfle i hyd yn oed fwy o bobl ddangos eu cefnogaeth ar y dydd - gan helpu i gyflwyno bwrdeistref sirol Caerffili i'r miliynau o bobl a fydd yn dilyn y gamp bwysig hon ar y teledu."


Bydd yn rhaid cau nifer fawr o ffyrdd ar ddydd Iau 19eg Medi er mwyn i'r digwyddiad fynd rhagddo'n ddiogel. Mae'r cyngor yn rhoi nifer o orchmynion traffig ar waith a fydd yn effeithio ar lawer o ffyrdd ymyl yn ogystal â'r prif lwybr. Gall trigolion sy'n byw ar hyd y llwybr edrych ar wefan y cyngor i gael rhestr lawn o'r ffyrdd a fydd ar gau neu'r amserlen yn www.caerffili.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth, gall trigolion hefyd ffonio 02920 88 00 11

Cam 5 - Dydd Iau 19eg Medi



www.tourofbritain.com



Eich Newsline

"Cynhyrchir Newsline gan y cyngor i ddod â'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth atoch o ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau am y cyhoeddiad a byddwn yn croesawu unrhyw adborth. Cysylltwch â fi os oes unrhyw ymholiadau gennych am y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn Newsline a byddaf yn danfon eich sylwadau ymlaen at yr adran berthnasol. Cofiwch - cewch fersiynau sain a phrint bras o Newsline ar gais."

Stephen Pugh - Golygydd e-bost: pughs@caerffili.gov.uk

Post: Uned Gyfathrebu, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.

Ysgol newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif

Mae'r cyngor wedi cyhoeddi cynlluniau i adeiladu ysgol uwchradd newydd arloesol fel rhan o raglen uchelgeisiol yr awdurdod sef - Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Yn unol â'r cynigion, byddai Ysgolion Cyfun presennol Oakdale a Phontllan-fraith yn cau, ond byddai disgyblion o'r ardal yn trosglwyddo naill ai i'r datblygiad newydd neu i Ysgol Gyfun Coed Duon yn dilyn adolygiad o'r dalgylchoedd. Byddai'r cynigion yn helpu i leihau nifer y lleoedd gwag yn yr ardal o 22.1% i 16.9%. Cynhelir ymgynghoriad ehangach er mwyn sicrhau y caiff pawb â diddordeb y cyfle i gael lleisio barn yn ystod tymor yr Hydref 2013.

Canolbwynt chwaraeon newydd yn gyrru ymlaen

Bydd sêr chwaraeon elitaidd yn gwneud eu canolbwynt yn Ystrad Mynach y flwyddyn nesaf gan fod gweithfeydd i ganolfan ddiweddaraf ar gyfer rhagoriaeth mewn chwaraeon yn sbrintio 'mlaen!

Bydd y datblygiad newydd sbon yn gweld hen safle ysbyty Ystrad Mynach wedi'i drawsnewid yn ganolbwynt syfrdanol ar gyfer chwaraeon - â thimoedd proffesiynol a chymunedol yn cael gwneud defnydd o'r cyfleuster bendigedig.

Ymwelodd cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Undeb Rygbi Cymru, Dreigiau Casnewydd Gwent a Heron Bros Cyf, y contractwr sydd yn gyfrifol am yr adeilad, â'r safle yn ddiweddar ac roeddent wedi'u syfrdanu wrth weld y cynnydd a oedd wedi cael ei wneud.

Dywedodd y Cyng. Dave Poole, "Mae'r datblygiad hwn yn enghraifft arall o'r ffordd rydyn ni'n buddsoddi yn iechyd a lles cyffredinol ein trigolion trwy ddarparu cymaint o gyfleoedd iddyn nhw fyw bywydau mor iach a bywiog agsy'n bosib."

Disgwylir i'r rhaglen o waith a fydd yn gweddnewid yr ardal, gael ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2014, â gosodiad y cyfleuster i ddilyn y dyddiad hwn. Ar hyn o bryd, mae'r prif adeilad a dwy brif stand yn cael eu hadeiladau a fydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio cyfadeilad chwaraeon rhyfeddol ar y safle.

Bydd y
cyfadeiladau
chwaraeon wedi ei
gwblhau erbyn mis
Chwefror
2014

Hefyd, mae cloddiau swmp yn cynyddu'n dda, â'r slabiau a ffurfiai hen adeiladau'r ysbyty yn cael eu symud ymaith er mwyn gwneud lle i ffurfio'r meysydd dosbarth cyntaf, 3edd genhedlaeth ar gyfer rygbi a phêl-droed.



Oergell hynaf Caerffili?

Mae Tîm Ynni Cynaliadwy Cynllun Datblygu Gwledig Caerffili ar helpa i ddod o hyd i oergell/rhwgell hynaf ym mwrdeistref sirol Caerffili... ai chi sy'n berchen arni?

Mae oergelloedd a rhewgelloedd yn gweithio 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ac felly ymhlith y peiriannau sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni yn y cartref. Ar gyfartaledd, mae oer-a-rhew-gell 15 mlwydd oed gradd ynni E yn gallu costio mwy na £110 y flwyddyn i'w rhedeg.

Efallai bod trigolion yn meddwl eu bod yn arbed arian drwy gadw hen offer, ond os ydych yn uwchraddio i fodel â gradd ynni A+, gallech arbed mwy na £75 y flwyddyn! Bydd enillydd yr helpa i ddod o hyd i'r oergell neu rhewgell hynaf yn ennill oer-a-rhew-gell penigamp ynni ac arian effeithiol oddi wrth Electrolux!

Dylai trigolion sy'n credu mai eu hoer-a-rhew-gell nhw yw'r hynaf yn y fwrdeistref sirol ffonio **01495 235 944** neu anfon e-bost at:silcok@caerffili.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth yw **Dydd Iau 31ain Hydref**. Bydd angen prawf prynu arnoch, ond os yw'r gwneuthurwr dal yn bodoli, efallai y byddwn yn gallu derbyn rhif cyfresol yr uned er mwyn gwirio oedran yr eitem.

Awgrymiadau arbed ynni gan Electrolux:

- ✓ Osgowch gadw drws yr oergell neu'r rhewgell ar agor am gyfnodau hir.
- ✓ Rhewch yr oergell neu'r rhewgell mewn man oer er mwyn sicrhau nad yw'n gorweithio.
- ✓ Dylech ddadrewi'n rheolaidd er mwyn galluogi'r oergell neu'r rhewgell i weithredu'n fwy effeithlon.



Enillwch!!!
Oer-a-rhew-gell
penigamp



Cadw llygad ar ansawdd yr aer

Mae'r cyngor yn ymroddedig i wella'r amgylchedd lleol, ac mae rhan o'r gwaith yn golygu gwirio lefelau ansawdd yr aer yn barhaus ar draws yr ardal.

Mae monitro rheolaidd yn cael ei wneud ar draws y fwrdeistref sirol yn enwedig mewn lleoliadau allweddol fel ardaloedd preswyl sydd wrth ymyl mannau â thraffig trwm. Mae adroddiadau diweddar wedi dangos bod ansawdd yr aer dros y fwrdeistref sirol yn dda yn gyffredinol; fodd bynnag mae rhai lleoliadau monitro wedi dangos bod lefelau ar gyfer nitrogen deuocsid, sef llygrydd sydd yn gysylltiedig ag allyriadau disbyddwyr cerbydau, yn cyrraedd lefelau sydd yn uwch na'r cyfartaledd.

Pan fydd rhai llygryddion yn codi i lefel annerbyniol, mae gofyn i'r cyngor ddynodi Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer. Mae hyn wedyn yn arwain at ddatblygiad cynllun gweithredu sydd yn amlinellu ystod o gamau a fydd yn helpu lleihau'r lefelau.

Mae Heol Hafodyrynys yng Nghrymlyn a Heol Nantgarw, Heol Pontygwindy, Heol Ton-y-felin, Heol Bedwas a Heol Caerdydd yng Nghaerffili yn ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn dangos lefelau cynyddol, o ganlyniad, i raddau helaeth, o lifoedd traffig trwm ar hyd yr heolydd.

Bydd y cyngor yn parhau i fonitro lefelau ansawdd yr aer ar draws yr ardal, ond yn y cyfamser, cawn i gyd wneud ein rhan i helpu trwy:

- Beidio â gwneud teithiau cerbyd dianghenraid
- Gwneud mwy o ddefnydd o gludiant cyhoeddus
- Gwneud mwy o beicio neu gerdded

Am wybodaeth bellach am ansawdd aer, ewch i www.caerffili.gov.uk

A greener place to live, work and visit
Man gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld



Diwrnod ym mywyd...

Gweithiwr GGDD

Fel Gweithiwr Goruchwylio ac Arolygu Dwys, mae Michael yn cynnig dewis arall i gystodaeth neu lysoedd yn dedfrydu troseddwyd ifainc.

Mae Gweithwyr GGAD yn darparu cefnogaeth am 365 diwrnod y flwyddyn i'r person ifanc a fydd yn cael ei roi ar hwyrghloch electroneg a chymryd rhan mewn gweithgareddau atgyweirio yn ogystal â chyfleodd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae gweithwyr GGAD hefyd yn darparu pecynnau ailsefydlu i bobl ifanc sydd yn cael eu rhyddhau o gystodaeth. Mae pobl ifanc yn cael eu rhyddhau ar drwydded ac mae gweithwyr GGAD yn eu helpu i atgyfannu yn ôl yn eu cymunedau, gan ddarparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad.



Dyma sut mae Michael yn cefnogi person ifanc ar GGAD ar ddiwrnod arferol:

9.30am - Mae cyfweiliad gan y person ifanc heddiw gyda Gyrfaoedd Cymru. Byddaf yn mynd gyda fe/hi i'r cyfweiliad a chynnig cefnogaeth. Rydyn ni'n cynnig cymorth mewn addysg a chyflogaeth i'n holl bobl ifanc yn enwedig achos bod rhai wedi datgywedd oddi wrth addysg prif lif am nifer o flynyddoedd ac weithiau yn brwydro gyda llythrennedd a rhifedd sylfaenol.

11.30am - Rwy'n mynd â'r person ifanc i sesiwn atgyweiriad- codi sbwriel yw hi y tro yma, ar safle dynodedig.

1.00pm - Nesa, rydyn ni'n mynd i'r llyfrgell i wneud sesiwn wedi'i chynllunio. Rwy'n gweithio gyda'r person ifanc i fynd i'r afael â'i ymddygiad/hymddygiad troseddol trwy nifer o raglenni gwaith teilwredig penodol.

4.30pm - Mae'r Oruchwyliaeth drosodd am heddiw felly rwy'n mynd â'r person ifanc yn ôl i'w llety/llety cynaledig ac yna'n mynd allan eto i'r gymuned i ymweld â pherson ifanc newydd ei ryddhau o gystodaeth fel rhan o'n rhaglen ailsefydlu.

Gyda'r nos, os yw'r person ifanc angen cymorth, mae rhywun wastad ar gael.



Carreg filltir i'r Neuadd Goffa!

Mae prosiect nodedig wedi ei gefnogi gan yr UE i adfer Sefydliad a Neuadd Goffa Trecelyn i'w hen ysblander wedi cyrraedd carreg filltir allweddol yn ddiweddar yn ailagoriad swyddogol yr adeilad Sefydliad eiconig.

Roedd yr agoriad swyddogol wedi'i arwain gan Gadeirydd y Sefydliad a Neuadd Goffa ac ymddiriedolwyr y Sefydliad, Howard Stone. Cafodd plac cyflwyniad ei ddadorchuddio'n swyddogol gan Arglwydd Don Touhig yn cyflwyno'r adeilad yn ôl i'r gymuned mwyngloddio leol a wnaeth helpu'n wreiddiol i'w gyllido.

Mae'r 'Neuadd Goffa' - fel y'i gelwir yn lleol - a'r Sefydliad cyfagos yn cael ei adnewyddu yn gariadus ac adfer trwy'r prosiect adeiladu £5.6miliwn.

Mae'r adeilad Sefydliad sydd wedi ei ailwampio yn cynnwys Canolfan Adnoddau Gwybodaeth ddiweddaraf ar y llawr gwaelod, sydd nawr yn gartref newydd i Lyfrgell Trecelyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - dwywaith maint y cyfeuster cynt - a Gwasanaeth Swyddfa Arian.

Ar y llawr gyntaf, mae ystafelloedd cymunedol amlbwrpas, gan gynnwys ystafell ddigwyddiadau, ystafelloedd cyfarfod a swyddfa Cymdeithas

Awyrlu Brenhinol. Mae estyniad gwydr newydd trawiadol yn cysylltu'r Sefydliad â'r Neuadd Goffa, ac yn darparu prif fynediad newydd i'r adeilad, yn ogystal â swyddfa staff newydd, tai bach newydd a dau lifft.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn falch o weithio mewn partneriaeth gydag ymddiriedolwyr y Sefydliad a Neuadd Goffa yn eu prosiect adfer mawreddog, sydd yn cael ei ariannu yn rhannol gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Y Gronfa Loteri Fawr, CADW a'r Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, ymhlith eraill.

Dyweddodd Cyng. Ken James, "Does dim amheuaeth gen i fydd yr adeilad hanesyddol annwyl hwn unwaith eto yn dod yn ganolbwynt gweithgaredd diwylliannol, cymdeithasol a busnes ar gyfer y gymuned leol, ac unwaith eto yn dod yn un o leoliadau adloniant mwyaf blaenllaw Cymru, yn helpu i roi Trecelyn yn ôl ar y map."

Bydd cyfnod nesaf y prosiect adfer uchelgeisiol hwn yn cychwyn ar ddiwedd yr haf, wrth i waith i adfer yr adeilad Neuadd Goffa ddiwylliannol bwysig Gradd II* hefyd gychwyn.



Mae presenoldeb yn yr ysgol yn allweddol!

Mae Gwasanaeth Lles Addysg y cyngor yn awyddus i atgoffa rhieni a gwarcheidwaid y gall absenoldeb o'r ysgol effeithio ar bosiblwydd y plentyn am ddyfodol llwyddiannus.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn monitro presenoldeb ysgol ac yn gweithio gyda theuluoedd a phobl ifanc os yw'r lefel absenoldeb yn rhoi achos am bryder.

Bydd Swyddog Lles Addysg yn aml yn ymweld â'r cartref a siarad â'r dysgwyr a'r rhieni am y broblem, a cheisio'i datrys yn gyfeillgar a llwyddo i gael dychweliad i'r ysgol. Fodd bynnag, os nad oes rheswm dilys dros absenoldeb, mae'r cyngor â'r grym i erlyn y rhiant neu'r gwarcheidwad.

Os nad yw plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, mae'n bosibl na fyddant yn gallu cadw lan gyda gwaith ysgol ac yng nghanol diwrnod ysgol prysur, mae'n anodd i ysgolion ddod o hyd i'r amser ychwanegol i helpu plentyn i ddal lan.

Bydd gosod patrymau presenoldeb ysgol da, o ddosbarthiadau meithrin trwy addysg ysgol gynradd, hefyd yn helpu'ch plentyn yn bellach ymlaen yn eu bywyd ysgol.

Dyweddodd Y Cyng. Rhianon Passmore, "Efallai mai dim ond un cyfle gaiff plant yn yr ysgol, ac mae'n bosib y bydd peidio â mynychu ysgol neu ddarpariaeth arall yn rheolaidd yn effeithio ar eu siawns am ddyfodol llwyddiannus.

Y dyddiau hyn, mae'n bwysicach nag erioed i gael addysg dda tu ôl i chi os ydych chi eisiau mwy o gyfleoedd fel oedolyn, a bydd creu trefn presenoldeb da ym mywyd plentyn yn helpu i'w baratoi ar gyfer y dyfodol."

Os ydych yn cael trafferth gyda phresenoldeb ysgol eich plentyn, gall Swyddogion Lles Addysg gynnig cefnogaeth a chynghor er mwyn helpu.

I gysylltu â Swyddog Lles Addysg eich ysgol, gallwch un ai gofyn yn yr ysgol, ffonio **01443 805588** neu e-bostio: leiaadmin@caerffili.gov.uk

Enillwyr Gafael mewn Grant wedi'u cyhoeddi

Mae trigolion bwrdeistref sirol Caerffili wedi penderfynu ar y pum prosiect cymunedol a fydd yn rhannu gwerth £25,000 o arian grant o Gronfa Fawr y Loteri.

Derbyniwyd record o 3,011 o bleidleisiau o'r gystadleuaeth Gafael mewn Grant mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cyrhaeddodd deg prosiect, ar draws yr ardal y rhestr fer, ac yn dilyn y record o 3,011 o bleidleisiau yn cael eu bwrw yn y gystadleuaeth Gafael mewn Grant mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, cyhoeddwyd pump o enillwyr.



Bydd **Y Gymdeithas Strôc** yn gwario £5,000 ar ddarparu cyfres o weithdai creadigol ar gyfer goroeswyr strôc yn ardal bwrdeistref sirol Caerffili. Bydd y grŵp, sydd ar hyn o bryd ag 80 o aelodau, yn trefnu gweithgareddau newydd a fydd yn helpu eu buddiolwyr yn eu gwellhad a'u hadferiad. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys gwneud gemwaith, sgiliau TG, celf, coginio a garddio.



Bydd **Cymdeithas Rhandiroedd Crosskeys** yn gwario £4,950 o'r arian Gafael mewn Grant ar osod tŷ bach compostio â mynediad ar gyfer pobl ag anableddau ar eu rhandir, a fydd yn helpu gwneud y safle yn fwy hygyrch i ystod ehangach o bobl gan gynnwys y rhai â phroblemau symudedd.



Bydd **Neuadd a Sefydliad Gweithwyr Caerffili** yn gwario £5,000 ar wella cyfleusterau yn y neuadd, gan gynnwys uwchraddio goleuadau'r llwyfan i ddarparu profiad gwell ar gyfer perfformwyr a chynulleidfaoedd sydd yn defnyddio'r neuadd, yn ogystal â'i gwneud yn fwy hygyrch i grwpiau eraill.



Bydd **Prosiect Plant o dan Anfantais Caerffili** yn gwario £2,052 yn llwyfannu digwyddiad yn darparu gweithgareddau synhwyro a chorfforol i blant ag anableddau a'u teuluoedd. Bydd y digwyddiad yn rhoi lle amlwg i goedwig law symudol gyda sŵn synhwyro ymarferol, synau ac arogleuon, a phabell synhwyro. Bydd y grŵp hefyd yn sefydlu clwb coffi newydd i rieni a gofalyddion.



Bydd **Grŵp Ioga Bargod** yn gwario eu £3.960 arian Gafael mewn Grant i ddatblygu dosbarth ioga ychwanegol ar gyfer y nifer cynyddol o bobl 60 i 80 oed sydd eisiau cymryd rhan. Trwy ymarfer ioga rheoliad, mae aelodau yn dod yn fwy hyblyg, yn cael mwy o egni ac yn sylwi bod llawer o'u hanhwylderau yn diflannu.



Dywedodd Y Cyng. Keith Reynolds, "Da iawn i'r holl enillwyr a diolch i drigolion bwrdeistref sirol Caerffili am bleidleisio dros eu hoff brosiectau. Mae'n braf clywed y bydd arian y Loteri Genedlaethol nawr yn cefnogi prosiectau cymunedol sylfaenol yn yr ardal leol."

Y pum sefydliad arall oedd Ambiwylans St John yng Nghymru, Cangen Bwrdeistref Sirol Caerffili – Parkinson's DU – Cyngor Eglwys Blwyfol Santes Gwladys, Sefydliad Samye Cymru a YMCA Bargod a'r Cylch.

I ddod o hyd i ba gyllid arall sydd ar gael oddi wrth Gronfa'r Loteri Fawr, ymwelwch â www.biglotteryfund.org.uk

Bydd pum prosiect cymunedol yn rhannu gwerth £25,000 o arian grant.

Ailgysylltu â Gofal

Mae Ailgysylltu â Gofal yn newid pwysig i'r Ddeddf Plant (1989), sydd yn golygu y gall pobl ifanc rhwng 21-25 oed a oedd gynt yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, gael mynediad at gefnogaeth oddi wrth Wasanaethau Gadael Gofal.

Mae person ifanc sydd yn 'ailgysylltu' â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili â'r hawl i gael ei asesu i benderfynu a fyddai cefnogaeth yn addas iddo fe/iddi hi. Os yw'r asesiad yn penderfynu bod cefnogaeth yn addas, caiff y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i ddatblygu, a mynediad at ymgynghorydd personol.

Dyluniwyd y gefnogaeth i helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial mewn addysg, hyfforddiant neu yn y gweithle.

Mae Tîm Gadael Gofal Caerffili ar hyn o bryd yn cysylltu â phobl ifanc y maent yn gwybod amdanynt, sydd wedi cyrraedd 21 oed yn y flwyddyn diwethaf, ac efallai sydd yn gymwys i dderbyn cefnogaeth o dan y ddeddfwriaeth newydd. Gellir gweld polisi 'Ailgysylltu â Gofal' y cyngor, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Tîm Gadael Gofal Blaenau Gwent, ar

www.caerffili.gov.uk

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Janine Edwards ar **02920 849 819**.

Amcanion Gwella

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cyhoeddi yn ddiweddar manylion o'i chwe maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer eu gweithredu dros y flwyddyn sydd i ddod.

Yn cael eu hadnabod fel 'Amcanion Gwella', mae'r rhain yn cyfannu meysydd blaenoriaeth ehangach y cyngor, sydd i gyd yn anelu at ganolbwyntio ymdrechion y cyngor wrth wneud gwelliannau penodol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu i drigolion. Mae'r Cyngor, mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, wedi cytuno ar y chwe maes canlynol fel ei Amcanion Gwella Allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd yn derbyn gofal yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu llawn botensial.
- Gwella cyfleoedd am waith trwy weithredu cynllun PASBORT y cyngor.
- Datblygu Gwasanaeth Ieuencid effeithiol a hygyrch sydd yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc.
- Gwella ymwybyddiaeth, mynediad, amrywiaeth a defnydd cyfleusterau hamdden, cymunedol a chwaraeon.
- Buddsoddi yn nhai'r cyngor i drawsnewid bywydau a chymunedau.
- Gwella argaeledd tai'r sectorau preifat a chyhoeddus er mwyn lleihau'r nifer o drigolion a allai fod yn ddigartref.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach Amcanion Gwella'r cyngor ar gyfer 2013/14 ar www.caerffili.gov.uk. Hefyd, gellir dod o hyd i gopïau caled o adroddiad yr Amcanion Gwella mewn llyfrgelloedd ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Cyhoeddi Adroddiad y Cyfarwyddwr

Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi cyhoeddi ei bedwerydd Adroddiad Blynnyddol gan y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn y fwrdeistref sirol.

Diben yr adroddiad yw nodi pa mor dda y llwyddwyd i ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r ffocws a'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw

Gellir gweld copi llawn o Adroddiad Blynnyddol y Cyfarwyddwr yn www.caerffili.gov.uk/socialservicesacrf

at nifer o gyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o fewn Gwasanaethau Oedolion, lle y bu gwelliant amlwg o ran yr amser y mae defnyddwyr gwasanaethau yn ei aros i gael asesiad o'u hanghenion, ac o fewn Gwasanaethau Plant, lle y gwariwyd dros £19 miliwn ar wasanaethau ledled bwrdeistref sirol Caerffili.

Yn ogystal â galluogi'r gwasanaeth i barhau i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc, mae hefyd wedi ei alluogi i fuddsoddi mewn cartref preswyl newydd i blant yng

Nghaerffili, rhoi cymorth addysgol i Blant sy'n Derbyn Gofal a datblygu prosiect y Tim o Amgylch y Teulu. Dywedodd y Cyngorydd Robin Woodyatt, "Rydym yn parhau i ddangos ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol, ond ni fyddwn yn gorffwys ar ein rhwyfau a byddwn yn parhau i addasu, datblygu a newid ein gwasanaethau wrth i'r galwadau ar y gwasanaeth newid."

Ar gyfer y flwyddyn i ddod, bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau

i ganolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i ddiwallu anghenion pobl.



Dewis doeth! Os byddwch yn teimlo'n sâl neu'n cael eich anafu, dylech wneud y canlynol...

Dewis darparu hunanofal

Ar gyfer salwch ac anafiadau nad ydynt yn ddifrifol, y peth doethaf yw darparu hunanofal, er enghraifft pen mawr ar ôl yfed alcohol, diffyg traul, briwiau, cleisiau, mân glwyfau, ysigiadau a streifiadau. Yn aml, gall cabinet llawn meddyginiaeth a digon o orffwys helpu yn y sefyllfaoedd hyn.

Fferyllydd

Yn aml, gall eich Fferyllydd lleol ymdrin â llawer o anhwylderau ac ymholiadau, gan gynnig ateb hawdd a chyflym.

Ymhlith yr eitemau defnyddiol y gallech eu hychwanegu at eich cabinet meddyginiaeth mae:

- Parasetamol ac aspirin, a'r suropau cyfatebol (e.e. Calpol i blant)
- Carthyddion ysgafn i wella rhwymedd
- Cymysgeddau cyn-hydradu ar gyfer dolur rhydd neu chwydu
- Meddyginiaeth ar gyfer diffyg traul
- Plyciwr a siswrn miniog er mwyn tynnu fflawiau neu dorri rhwymynnau
- Thermomedr er mwyn gweld a oes twymyn
- Amrywiaeth o rwymynnau, plasteri, gwlân cotwm nad yw'n amsugol, rhwymynnau elastig a gorchuddion ar gyfer mân glwyfau, ysigiadau a chleisiau

Dewis Galw Iechyd Cymru ...

... os ydych yn teimlo'n sâl ac nad ydych yn siŵr ble y dylech fynd, ffoniwch **Galw Iechyd Cymru** ar **0845 46 47** am gyngor ac i'ch cyfeirio at y gwasanaeth iechyd mwyaf priodol yn eich ardal leol. Gallwch hefyd gael cyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol ar y wefan: www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Dewis eich Meddyg Teulu

Mae eich meddyg teulu lleol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau iechyd i'r teulu gan gynnwys:

- Cyngor ar broblemau iechyd
- Brechiadau

- Archwiliadau a thriniaeth
- Presgripsiynau am feddyginiaethau
- Atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd eraill
- Atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol

Dylai eich meddygfa gynnig apwyntiad i chi o fewn deuddydd ac mae gan lawer o feddygfeydd oriau agor estynedig erbyn hyn. Os bydd eich meddygfa ar gau, ffoniwch y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau ar **0845 600 1231** ar gyfer problemau meddygol brys neu salwch na all aros hyd nes y bydd y feddygfa ar agor fel arfer.

Dewis y Gwasanaeth Cwmpïadau Cymunedol ...

... os byddwch chi neu aelod oeddrannus o'r teulu yn cwmpo, ond nad oes unrhyw esgryn wedi'u torri. Gall eich Meddygfa neu Galw Iechyd Cymru drefnu i un o aelodau o staff eich tîm cwmpïadau cymunedol lleol eich asesu yn eich cartref, fel arfer o fewn 24 awr.

Dewis y Gwasanaeth Mân Anafiadau agosaf ...

... os byddwch chi neu aelod o'r teulu yn cael mân anaf, er enghraifft:

- Anaf i'r dwylo, gwddf neu wyneb
- Clwyf y gallai fod angen pwythau arno
- Lle credir bod asgwrn wedi torri
- Anaf lle gwelwyd cyflwr ymwybyddiaeth yr unigolyn yn newid

Nid oes angen apwyntiad arnoch, ac os nad ydych yn siŵr a ddylech fynd i Uned Mân Anafiadau, yna ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar **0845 46 47**.

Dewis Adran Damweiniau ac Achosion Brys ...

... os oes gennych symptomau salwch difrifol (er enghraifft, poen yn y frest, llewygu neu golli gwaed), neu os ydych wedi cael anaf difrifol. Cofiwch ddefnyddio'r gwasanaethau brys mewn ffordd gyfrifol. Bydd gwneud dewis doeth yn sicrhau eich bod yn cael y driniaeth orau bosibl, gan adael y gwasanaethau brys yn rhydd i ymdrin â'r rheini sydd eu hangen fwyaf.

Lleolir Gwasanaethau

Mân Anafiadau Lleol yn:

Ysbyty Ystrad Fawr, Ystrad Mynach

Ffordd Ystrad Fawr, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7GP
Ffôn: **01443 802248**

Ar agor: 24 awr y dydd, gan gynnwys gwyliau banc.

Ysbyty Aneurin Bevan, Glyn Ebwy

Y Gweithfeydd, Festival Drive, Glyn Ebwy, NP23 8XE
Ffôn: **01495 363636**

Ar agor: Rhwng 9.00am a 7.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ar gau ar wyliau banc.

Ysbyty Nevill Hall, Y Fenni

Heol Aberhonddu, Y Fenni NP7 7EG
Ffôn: **01873 732732**

Ar agor: 24 awr y dydd, gan gynnwys gwyliau banc (Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys).

Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd

Heol Caerdydd, Casnewydd NP20 2UB
Ffôn: **01633 234234**

Ar agor: 24 awr y dydd, gan gynnwys gwyliau banc (Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys).



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd
Aneurin Bevan
Health Board

Rhifau Defnyddiol

Ysbyty Ystrad Fawr: 01443 802200

Galw Iechyd Cymru: 0845 46 47

GP - Tu Allan i Oriau: 0845 600 131

Llinell Deintyddol: 01633 488389

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw'r enw gweithredol ar Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

Hwb Enfawr yng Ngorsaf Eneu'r-glyn!

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu gorsaf gwerth £5.2m newydd sbon rheilffordd yn Eneu'r-glyn a Pharc Churchill.

Dechreuodd Network Rail i weithio ar yr orsaf newydd - sydd wedi ei lleoli rhwng Aber a Llanbradach - yn gynnar yn yr haf. Pan fydd yn agor ar ddiwedd 2013, bydd teithwyr sy'n defnyddio'r orsaf yn buddio o fynediad rheilffordd uniongyrchol i ac o Gaerdydd, a gwasanaethau Rhymni.

Mae'r cynllun yn mynd yn ei flaen yn dda, gyda'r strwythur llwyfan cychwynnol bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth ar ddwy ochr y trac.

Bydd Eneu'r-glyn a Gorsaf Park Churchill yn cynnwys dau blatfform hyd 6-coets trên a mynediad heb risiau yn ogystal â maes parcio ar gyfer 18 o gerbydau (gyda mannau parcio i'r anabl wedi'u cynnwys), teledu cylch cyfyng, cysgodfeydd aros, peiriannau tocynnau a man storio beiciau. Bydd hefyd yn gyfnewidfa well â gwasanaethau bws ar Rodfa Lewis.

Wedi'i ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, mae'r orsaf yn cael ei chyflwyno gan Network Rail ac, ar ôl agor, bydd yn cael ei weithredu gan Drenau Arriva Cymru.

I ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer gwasanaethau i Gaerdydd, bydd platfformau ychwanegol hefyd yn cael eu hadeiladu mewn nifer o orsafoedd ar draws Caerdydd a'r rhwydwaith rheilffordd y Cymoedd, gan gynnwys yn y Barri, Caerffili, Pontypridd a Thirphil, yn ogystal ag adeiladu gorsaf newydd sbon yn Eneu'r-glyn.



Gorsaf newydd wedi'i lleoli rhwng Llanbradach ac Aber

I'w gwblhau erbyn 2015, mae'r cynllun am chwalu'r tagfeydd teithio, gyda chyllid o £17m gan Lywodraeth Cymru, a fydd o bosibl yn darparu cannoedd o seddau ychwanegol bob dydd ar wasanaethau rheilffordd ar y rhwydwaith Caerdydd a'r Cymoedd yn ystod amserau prysur.

Estynnir gwahoddiad i drigolion a fyddai'n hoffi cael gwybod mwy am y prosiect i ymuno â'r staff y safle yn 'bore coffi' cymunedol nesaf, am 10am ar 24 Medi yn Safle Gorsaf Eneu'r-glyn, Stryd Llwyn-Onn, Caerffili, CF83 2QR.



Dadorchuddio Cofeb Mwyngloddio

Bydd cerflun efydd trawiadol yn cael ei ddadorchuddio yn Senghenydd y mis nesaf i gofio 100fed pen-blwydd trychineb glo mwyaf Prydain.

Mae'r cerflun, yn darlunio 'Achub Glowyr' wedi cael ei ddewis ar gyfer Cofeb Genedlaethol Glowyr Cymru. Dyluniwyd gan y cerflunydd Les Johnson, mae'r cerflun yn dangos nid yn unig y trychinebau glo yn Senghenydd ond hefyd cannoedd o drychinebau glo eraill sydd wedi digwydd ar draws Cymru.

Mae'r cerflun yn cynrychioli'r ymgyrch achub a ddigwyddodd yn syth ar ôl trychineb 1913, ac yn darlunio gweithiwr/wraig achub yn rhoi cymorth i oroeswr/wraig, yn dangos emosiwn a brawdoliaeth.

Mae'r gwaith i greu cerflun, a fydd yn sefyll ar blinth sydd wedi ei wneud allan o garreg pennwn lleol bron wedi ei gwblhau, hefyd mae'r gwaith i greu gardd goffa lle bydd y cerflun yn cael ei leoli bron wedi ei gwblhau.

Bydd y cerflun a'r gofeb yn cael ei ddadorchuddio mewn gwasanaeth ar **Ddydd Llun y 14eg o Hydref am 11.30am**, i gofio 100fed pen-blwydd y trychineb glo yn y Pwll Glo Byd-eang yn Senghenydd, lle bu farw 440 o ddynion a bechgyn mewn ffrwydrad dinistriol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.abervalleyheritage.co.uk



Un Curiad!

Bydd gwaith amhrisiadwy gwirfoddolwyr ar draws bwrdeistref sirol Caerffili yn cael ei ddathlu mewn digwyddiad arbennig y mis nesaf.

Bydd cynrychiolyddion o tua 80 sefydliad gwirfoddol sy'n gwasanaethu'r gymuned yn dod at ei gilydd ac arddangos eu gwaith yn y digwyddiad **Un Curiad** blyneddol ar **Ddydd Sadwrn y 19eg o Hydref** ym mhencadlys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta.

Mae'r digwyddiad, sy'n cael ei drefnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a CMGG, yn agored i aelodau'r cyhoedd a bydd yn cael ei gynnal rhwng 11am a 1pm.

Dywedodd y Cyng. Harry Andrews, "Mae Un Curiad yn un o'r digwyddiadau mwyaf sefydledig ac yn darparu cyfle gwirioneddol wych i ddathlu gwaith amhrisiadwy'r sefydliadau gwirfoddol ar draws y fwrdeistref sirol sy'n gwasanaethau'r cymunedau yn ddiiflino."

Am wybodaeth bellach, neu am sefydliadau gwirfoddol sydd yn dymuno arddangos eu gwaith yn Un Curiad, ffoniwch 01443 864312.



UsefulNumbers

RhifauDefnyddiol

MAIN SWITCHBOARD

PRIF SWITSFWRDD

☎ 01443 815588

Minicom Minicom

☎ 01443 873626

Emergency number for all services:

Rhif argyfwng ar gyfer pob gwasanaeth:

☎ 01443 875500

(Out of hours only - Allan o Oriau yn unig)

Adults' Social Services

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

☎ 0808 100 2500

StreetPride BalchderStryd

☎ 01443 866566

Children's Social Services

Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant

☎ 0808 100 1727

Consumer Advice

Cyngor i Ddefnyddwyr

☎ 01495 235111

Council Tax Enquiries

Ymholiadau Treth y Cyngor

☎ 01443 863002

Furniture Recycling

Ailgylchu Dodrefn

☎ 01685 846830

Housing & Council Tax Benefits

Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor

New Claims: Rawliau Newydd: 01443 866567

Existing Claimants: Rawlwy'r Presennol: 01443 864099

Changes to Bus Services

Changes to some bus services across Caerphilly county borough have recently come into effect.

Earlier this year, the council's Cabinet agreed to review the network of local bus services the council supports across the county borough, as a result of a funding reduction of over 25% in the Local Transport Services Grant (LTSG) allocation from the Welsh Government, used to support local bus services. The council itself has also been forced to reduce revenue support for local bus services as part of its Medium Term Financial Plan.

A full list of the changes, and new bus timetables can be found at www.caerphilly.gov.uk. Alternatively, residents who would like a hard copy of details of the changes can call 01495 235 223.

Newidiadau i Wasanaethau Bysiau

Daeth newidiadau i rai gwasanaethau bysiau i rym yn ddiweddar ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Yn gynharach eleni, cytunodd cabinet y Cyngor i adolygu rhwydwaith y gwasanaethau bysiau lleol y mae'r cyngor yn eu cynnal ar draws y fwrdeistref sirol, o ganlyniad i leihad yn y cyllid o dros 25% yn ynraniad y Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol oddi wrth Lywodraeth Cymru, a ddefnyddir i gynnal gwasanaethau bysiau lleol. Mae'r cyngor ei hunan wedi cael ei orfodi i leihau cynhaliath cyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol fel rhan o'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.

Gellir dod o hyd i restr lawn o newidiadau a'r amserlenni bws newydd ar www.caerffili.gov.uk. Hefyd, gall trigolion a hoffai gopi caled o fanylion y newidiadau ffonio 01495 235 223.

Foster Appeal

The Council needs foster carers to care for children over the age of 10.

We offer extensive support, comprehensive training and attractive fees.

If you have room in your home and time in your life, why not call 0800 587 5664, text 78866 or visit www.caerphilly.gov.uk/fostering. Texts cost the standard network rate.

What's ON / Digwyddiadau

www.caerphilly.gov.uk/events • www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk • Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk



Open Doors • Drysau Agored

21/09/2013 - 10am

Winding House • Y Tŷ Weindio

See the historic winding engine in action and explore our new interpretation in the historic winding house - discover more about the history of coal mining in the County Borough.

Gallwch weld yr injan hanesyddol yn symud ac archwiliwch ein dehongliad newydd yn y tŷ weindio hanesyddol - darganfyddwch fwy am hanes mwyngloddio yn y Fwrdeistref Sirol.

01443 822666



Traditional Trades & Creative Crafts • Masnachu Traddodiadol a Chrefftau Creadigol

22/09/2013 - 10am

Llancaiach Fawr Manor • Maenordy Llancaiach Fawr

Age old skills in action in and around the Manor.

Come and have a go.

Hen sgiliau yn gweithredu yn ac o amgylch y Maenordy.

Dewch i dro.

01443 412248

Caerphilly Adventure Group Monthly Meeting • Cyfarfod Misol Grŵp Antur Caerffili

Every Wednesday - 7pm

Starting 2nd October until 4th December

Business and Technology Centre

CAG provides outdoor activity opportunities for people of all ages and abilities. The monthly meeting is held to discover what activities are on and plan future events. New members are welcome to attend and booking is not necessary. Guest speakers and members deliver short presentations on activities /trips they have undertaken. More information please ring.

Bob dydd Mercher - 7pm

Yn cychwyn yr 2il o Hydref tan y 4ydd o Ragfyr

Canolfan Busnes a Thechnoleg

Mae GAC yn darparu cyfleoedd gweithgareddau awyr agored i bobl o bob oedran ac o bob gallu. Mae'r cyfarfod misol yn cael ei gynnal i ddarganfod pa weithgareddau sydd ymlaen a chynllunio digwyddiadau'r dyfodol. Croesewir aelodau newydd i fynychu a does dim rhaid cadw lle. Bydd siaradwyr gwadd ac aelodau yn rhoi cyflwyniadau ar weithgareddau/gwibdeithiau maent wedi gwneud.

01495 221058



Mining Memorial Concert • Cyngerdd Coffa Mwyngloddio

05/10/2013 - 7pm

Blackwood Miners Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon

Blackwood Miners Institute are hosting a mining memorial concert with Caerphilly Community Chorus, Caerphilly Children's Choir, Boyd Clack and others. Tickets are £12 (£10 for concessions) available from Blackwood Miners Institute and Senghenydd Community Centre. All proceeds going to the Welsh National Mining Memorial Fund.

Mae Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn cyflwyno cyngerdd coffa mwyngloddio gyda Chorws Cymunedol Caerffili, Côr Plant Caerffili, Boyd Clack ac eraill. Mae tocynnau'n £12 (£10 ar gyfer consesiynau) ac maent ar gael o Sefydliad y Glowyr Coed Duon a Chanolfan Gymunedol Senghenydd. Bydd yr holl elw yn mynd at Gronfa Cofeb Genedlaethol Glowyr Cymru.

01495 227206

Electric Blanket testing • Profi Blancedi Trydan

03/10/2013 - 10am - 4pm

Caerphilly Leisure Centre

04/10/2013 - 10am - 4pm

Blackwood Miners' Institute

Llancaiach Fawr Manor • Maenordy Llancaiach Fawr

As well as the free electric blanket testing there will also be agencies that can provide assistance on fuel energy, home security, fire prevention and more. Blankets are able to be submitted for testing and where blankets are defective they will be replaced on a like for like basis free of charge.

03/10/2013 - 10am - 4pm

Canolfan Hamdden Caerffili

04/10/2013 - 10am - 4pm

Sefydliad y Glowyr Coed Duon

Yn ogystal â phrofi blancedi trydan am ddim bydd hefyd asiantaethau fydd yn gallu rhoi cyngor ar ynni tanwydd, diogelwch y cartref, atal tanau a mwy. Wrth i blancedi gael eu cyflwyno, os ydynt yn ddifffgiol, byddant yn cael eu cyfnewid am rai o'r un fath, yn rhad ac am ddim.

01495 235291

Half term horrible history!! • Hanes Ofnadwy Hanner Tymor!!

29/10/2013 - 01/11/2013 - 10am

Winding House • Y Tŷ Weindio

Delve into the past this October half term and discover grisly crimes and punishments, ghastly goings-on, and spooky stories, in this week of family activities and crafts!

Ymchwilwch i mewn i'r gorffennol hanner tymor yr Hydref a darganfod troseddau a chosbau erchyll, arswyd ar-leid, a storïau ysbrydion yn yr wythnos hon o weithgareddau a chrefftau i'r teulu!

01495 22720

Spooky Lantern Workshop • Gweithdy Llusern Arswyd

26/10/2013 - 10am

Cwmcam Forest Drive • Safle Coedwig Cwmcam

Bring along a jam-jar and create your own spooky lantern for Halloween! Decorate it in a ghoulish fashion and be the envy of your friends when you go trick or treating! You can even join us for a spooky story telling trail on the Sunday evening! Suitable for Ages 5+. Booking essential. £3per child.

Dewch â jar jam er mwyn creu eich llusern arswyd Nos Galan Gaeaf! Addurnwch y jar mewn ffordd arswydus a bydd eich holl ffrindiau'n genfigennus pan ewch chi mas am Noson 'Cast ynteu Ceiniog'! Gallech chi hefyd ymuno â ni am eith llwybr straeon arswyd ar nos Sul! Yn addas ar gyfer 5+ oed. Mae archebu lle yn hanfodol. £3 y plentyn.

01495 272001

Half term horrible history!! • Hanes Ofnadwy Hanner Tymor!!

29/10/2013 - 01/11/2013 - 10am

Winding House • Y Tŷ Weindio

Delve into the past this October half term and discover grisly crimes and punishments, ghastly goings-on, and spooky stories, in this week of family activities and crafts!

Ymchwilwch i mewn i'r gorffennol hanner tymor yr Hydref a darganfod troseddau a chosbau erchyll, arswyd ar-leid, a storïau ysbrydion yn yr wythnos hon o weithgareddau a chrefftau i'r teulu!

01495 22720

Bonfire Night Walk • Taith Gerdded Noson Tân Gwylt

05/11/2013 - 6pm

Cwmcam Forest Drive • Safle Coedwig Cwmcam

Join us for this popular Bonfire walk to the top of Twmbarlwm! Lead by the wardens of the Forest Drive, we will make the strenuous journey to Twmbarlwm and enjoy the firework displays around the county! On our return to the centre, we will enjoy a hot cuppa and soup or hot dog roll in the warm. Please bring a torch, warm clothing, a flask/drink for the walk and sturdy footwear. Payment must be made at time of booking. Suitable for ages 10+.

£5 per adult - £3per child.

Ymunwch â ni ar gyfer y daith gerdded tân gwylt poblogaidd i ben Twmbarlwm! Arweinir gan wardeniaid Rhodfa'r Goedwig, byddwn yn gwneud y daith egniol i Dwmbarlwm a mwynhewch arddangosfeydd tân gwylt o amgylch y sir! Ar ein ffordd nôl o'r ganolfan, byddwn yn mwynhau paned o de poeth a chawl neu raly'n cig poeth mewn cynhesrwydd. Dewch a thors, dillad poeth, ffiasg/diod ar gyfer y daith gerdded ac esgidiau cryf. Mae rhai rhannau serth a gall llwybrau fod yn fwyldd ac anwastad. Rhaid i daliadau gael eu gwneud ar adeg archebu. Yn addas ar gyfer plant 10+ oed. £5 yr oedolyn - £3 y plentyn.

01495 272001

Pride in Your Place

There is still time to submit a nomination for this year's Pride in your Place awards!

Every year, thousands of people do their bit to improve the quality of the environment across the county borough. The Pride in your Place awards is an initiative that acknowledges the endeavour, innovation and commitment of those who have helped to make the area cleaner, greener, safer and a better place to live and work. The award scheme is open to all residents, schools, businesses and community groups within the county borough.

To submit an application, please visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 866 566. The closing date is 11th October 2013.



Balchder Bro

Mae dal amser i gyflwyno enwebiad ar gyfer gwobrau Balchder yn eich Bro eleni!

Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn gwneud eu rhan i wella ansawdd yr amgylchedd ar draws y fwrdeistref sirol. Mae gwobrau Balchder yn eich Bro yn fenter sy'n cydnabod ymdrech, arloesiad ac ymrwymiad y rhai sydd wedi helpu gwneud yr ardal yn lanach, gwyrddach, yn fwy diogel a lle gwell i fyw a gweithio. Mae'r cynllun gwobrwyo yn agored i drigolion, ysgolion, busnesau a grwpiau cymunedol i gyd o fewn y fwrdeistref sirol.

I gyflwyno cais, ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 866 566.

Y dyddiadau cau yw 11eg o Hydref 2013.

PROTECTING YOU

The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe and fair place for people to live, work & visit. One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

Below are examples of recent prosecutions:

EICH DIOGELU CHI

Nod tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn lle iach, diogel a theg i bobl fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Un o brif dasgau'r tîm yw datgelu'r gwir am yr unigolion a'r busnesau hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, a'u dwyn gerbron y llys.

Isod ceir enghreifftiau o erlyniadau diweddar:

Trading Standards prosecutions

Erlyniadau'n ymwneud â safonau masnach

Defendant	Offence	Court Decision
Philip Michael King of Sutton Coldfield.	25 July 2013 at Caerphilly Magistrates Court. As a Director of MP Global Trading Limited, promoting a house to house collection for a charitable purpose without a licence having been obtained from the local authority, by virtue of his neglect.	24 months conditional discharge, £15 victim surcharge and £291.38 costs to the local authority. House to House Collections Act 1939.
MP Global Trading Ltd of Sutton Coldfield.	25 July 2013 at Caerphilly Magistrates Court. Promoting a house to house collection for a charitable purpose without a licence having been obtained from the local authority.	24 months conditional discharge, £15 victim surcharge. House to House Collections Act 1939.

Environmental Health prosecutions

Erlyniadau'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd

Defendant	Offence	Court Decision
Mr Paul Kent - Elm Drive, Risca	Discarding Litter (cigarette end) on Risca High Street on the 9th of April 2013. The case was heard at Caerphilly Magistrates court on 25th July 2013. He was found guilty in his absence as he failed to attend court.	He was issued with £110 fine, £120 costs, £20 Victim surcharge. Environmental Protection Act 1990 – Sections 87 + 88.
Terri Ambrossen	Ambrossen was convicted for an offence of leaving litter. The case was heard at Caerphilly Magistrates Court on Thursday 25th July 2013 in her absence.	Fine of £110 plus victim surcharge of £20. Legal cost of £120 were awarded. Environmental Protection Act 1990 Sections 87 + 88.

To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions

Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.

Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau

Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y llys yn gweithredu mewn modd agored. Ni ddylid aildefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

p.8 September 2013 Newsline

For more news visit www.caerphilly.gov.uk/news • Am fwy o newyddion ymwelwch â www.caerffili.gov.uk/newyddion

Newsline Medi 2013 t.8

Foster Appeal

The Council needs foster carers to care for children over the age of 10.

We offer extensive support, comprehensive training and attractive fees.

If you have room in your home and time in your life, why not call 0800 587 5664, text 78866 or visit www.caerphilly.gov.uk/fostering. Texts cost the standard network rate.

Apêl Maethu

Mae'r Cyngor angen gofalyddion maeth i ofalu am blant dros 10 oed. Rydym yn cynnig cymorth helaeth, hyfforddiant cynhwysfawr a ffioedd deniadol.

Os oes gennych le yn eich cartref ac amser yn eich bywyd, pam na wneuch chi ffonio 0800 587 5664, anfon neges destun 78866 neu ymweld â www.caerffili.gov.uk/maethu. Bydd negeseuon testun yn costio pris safonol y rhwydwaith.

